Adroddiad ar

Miri Morswyn (Gofal Dydd Llawn)

Ysgol Gymraeg Morswyn
Lôn Cyttir
Caergybi
LL65 2TF

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Miri Morswyn (Gofal Dydd Llawn)

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Miri Morswyn (Gofal Dydd Llawn) |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Medwyn Roberts a Helen Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Stacey Lloyd |
| Nifer y lleoedd | 50 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Gwener 8:00yb – 5:30yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 15/08/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 06/07/2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/05/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Sicrhau bod arsylwadau'n digwydd yn rheolaidd ac yn bwydo i'r cynllunio er mwyn sicrhau datblygiad a chynnydd ym medrau'r plant yn llawn.

A2. Cryfhau prosesau gwerthuso'r lleoliad er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus braf ac yn ymdopi’n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain. Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau'r rhyddid i symud yn annibynnol o amgylch yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan. Maent yn dilyn eu diddordebau ac yn dewis adnoddau o fewn yr ardaloedd chwarae yn effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i drafod eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y bydd yr hyn sydd ganddynt i’w ddweud yn cael ei werthfawrogi. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif â’r ymarferwyr, sy’n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy’n rhoi hyder iddynt rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, mae’r plant yn ymfalchïo wrth i’r ymarferwyr werthfawrogi eu hymdrechion i enwi trychfilod maent yn eu darganfod tra’n ymchwilio’n awyddus yn yr ardd.

Mae’r rhan fwyaf o blant wedi dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn awyddus i gyfarch ei gilydd ac i sgwrsio yn ystod amser byrbryd ac wrth chwarae. Maent yn rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda’i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n llwyddiannus i lenwi bwcedi gyda cherrig, er mwyn ceisio cael clorian i gydbwyso. Maent yn sgwrsio a rhoi cyfarwyddyd i’w gilydd, ac yn cymryd tro i lenwi a gwagio cerrig o’r bwced er mwyn cwblhau’r dasg yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda’u ffrindiau ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda. Er enghraifft, maent yn hapus i rannu offer a dangos diddordeb yn ymdrechion eu ffrindiau pan fyddant yn chwarae gyda thoes.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda wrth fynd i’r afael â thasgau, ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl yn arbrofi yn y gegin fwd wrth ychwanegu pridd a blodau i’r powlenni a’r sosbenni er mwyn creu danteithion i’w ffrindiau. Mae’r rhan fwyaf o blant yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn mwynhau ymchwilio a defnyddio’u dychymyg. Maent yn chwarae’n ddychmygol gyda’r tiwbiau cardfwrdd, yn rhedeg o amgylch yr ardal tu allan yn esgus eu bod yn wrachod yn hedfan ar ysgub.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da ac yn cyflawni tasgau ymarferol drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn cofrestru eu hunain ar ôl cyrraedd yn y bore, drwy osod eu henwau ar y bwrdd cofrestru ac yn cadw eu heiddo ar eu bachyn yn

effeithiol. Maent yn gweini byrbryd ar eu platiau drwy ddewis eu ffrwythau'n ofalus ac yn arllwys eu diodydd eu hunain yn hyderus.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol ar draws yr holl feysydd dysgu. Maent yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol pwrpasol, yn chwarae gyda'i gilydd yn hyfryd ac yn rhannu offer ac adnoddau yn hapus braf.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol wrth chwarae'n greadigol yn yr ardaloedd amrywiol, er enghraifft wrth wthio trên o amgylch traciau a defnyddio offer addas i drwsio cwch. Maent yn mwynhau cyd-ganu caneuon amrywiol yn y bore, fel y gân groeso a hwiangerddi cyfarwydd gan wneud y symudiadau pwrpasol yn llawn bwrlwm. Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r ymarferwyr gan ymateb yn bwrpasol, er enghraifft wrth dorri ffrwythau ar gyfer cywion bach a'u gosod yn ofalus o dan y tŷ adar.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau gwrando ar storïau a ddarllenir iddynt gan yr ymarferwyr. Maent yn barod i drafod eu cynnwys ac ymateb i gwestiynau am yr adar bach yn effeithiol. Yn ystod eu chwarae, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud marciau'n bwrpasol yn yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau'n briodol, fel sialc a phinau ffelt, i wneud marciau ystyrlon fel enfys ac amlinelliad o'u llaw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol drwy ddosbarthu ffrwythau yn ôl lliw a chyfateb y siapiau'n gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol syml mewn cyd-destunau pwrpasol, er enghraifft wrth rholio'r toes i wneud mwydyn hir a byr a chymharu powlenni gwag a llawn yn y twb dŵr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgyfarwyddo â defnyddio technoleg yn eu chwarae a'u gweithgareddau bob dydd yn hyderus. Maent yn cael llawer o hwyl yn rhoi cyfarwyddiadau i gar tegan symud o gwmpas y dosbarth ac yn mwynhau gwneud cylchoedd lliwgar ar y sgrin ryngweithiol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn archwilio'r ardal awyr agored yn hyderus ac yn datblygu eu medrau corfforol bras yn effeithiol wrth gydbwyso ar fwrdd pren a cherdded ar hyd trawst hir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau cydsymud yn fedrus ac yn datblygu medrau corfforol mân da wrth ddefnyddio offer yn bwrpasol i siapio toes yn fyrgers blasus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n effeithiol i ddatrys problemau yn yr ardaloedd amrywiol. Enghraifft hyfryd o hyn yw'r modd maent yn trefnu'r cratiau a'r trawstiau yn ofalus er mwyn creu llwybr hir a chadarn.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n fanwl, gan sicrhau bod rhieni'n arwyddo'r cofnodion yn amserol. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn dilyn gweithdrefnau addas wrth newid clytiau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach trwy ddarparu byrbrydau iach a maethlon a chynnig dŵr neu lefrith i'r plant. Maent yn annog y plant i wneud ymarfer corff yn rheolaidd trwy gynnig cyfleoedd effeithiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol ar amrywiaeth o offer chwarae mawr ac i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl â'r plant ac maent yn darparu arweiniad gofalgar a chynhaliol. Maent wedi ffurfio perthnasoedd ystyrlon â'r plant ac yn modelu medrau rhyngweithio cadarn. Maent yn siarad â'r plant mewn modd caredig ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn gyson, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau, eu dealltwriaeth o arferion, a'u hunanhyder. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad; er enghraifft, maent yn cynnig esboniad clir i'r plant pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Mae ymarferwyr yn casglu ystod o wybodaeth fuddiol am hoffterau, ofnau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol am gymorth gan asiantaethau allanol. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod anghenion bob plentyn yn cael eu diwallu'n effeithiol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm eang a chytbwys. Maent yn ymateb yn bwrpasol i ddiddordebau'r plant ac yn addasu eu cynlluniau'n effeithiol. Maent yn cyd-gynllunio profiadau dysgu amrywiol a diddorol sy'n bodloni anghenion bron bob plentyn. Mae'r profiadau dysgu yn annog plant i ddatblygu'n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd a dod yn ddysgwyr annibynnol. Wrth ofalu am flodau ac adar bach, mae'r plant yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd a sut i ofalu amdano.

Mae anogaeth dawel yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio'n ddiwyd ac i arbrofi'n hyderus wrth chwarae, er enghraifft wrth greu llethr gydag offer amrywiol er mwyn gweld y ceir bach yn llithro i lawr y llethr. Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn glir ac yn bwydo geirfa'n briodol wrth chwarae yn yr ardaloedd dysgu.

Mae ymarferwyr yn sicrhau ardaloedd cyfoethog y tu allan sy'n galluogi'r plant i ddatblygu eu medrau corfforol yn hyderus wrth fynd ar y beics a llithro i lawr y llithren. Mae cyfleoedd niferus iddynt ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol hefyd wrth adeiladu gwesty trychfilod, gan ddefnyddio deunyddiau naturiol a chwarae offerynnau amrywiol yn yr ardal gerddoriaeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd y plant yn dda. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant greu marciau a thrin llyfr stori drwy osod offer ysgrifennu a llyfrau deniadol mewn sawl ardal. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau rhifedd yn fedrus drwy gyfateb rhifau a'r siapiau yn gywir.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chanu rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am ddigwyddiadau cyffrous mewn diwylliannau eraill fel Diwali. Trwy gyfrwng y gwaith hwn, mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol drwy greu patrymau Rangoli a Lamp Diva.

Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn effeithlon drwy gynnal arsylwadau ac asesiadau achlysurol. Maent yn creu llyfrau deniadol i rannu gyda rhieni ar ddiwedd blwyddyn sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, rhai o'u llwyddiannau ac esiamplau o'u gwaith. Er fod yr arsylwadau'n dechrau arwain at gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant yn effeithiol, nid yw'r arfer hon yn digwydd yn ddigon rheolaidd i dargedu'r camau nesaf yn natblygiad medrau'r plant yn llwyddiannus.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu a chwarae yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Nid oes modd i ymwelwyr gael mynediad i unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod y staff yn rhoi mynediad iddynt. Rhaid i ymwelwyr fewngofnodi'n brydlon ac mae cofnodion pwrpasol yn cael eu cadw ar y safle. Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae arweinwyr yn cadw cofnod trylwyr o'r dyddiad mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau yn cael eu glanhau er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr addas. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n dda.

Mae'r amgylchedd tu mewn a thu allan yn groesawgar a chartrefol ac mae digon o le i blant ddarganfod a symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn meithrin ymdeimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith celf ar y waliau, er enghraifft trychfilod amrywiol a phortread ohonynt eu hunain. Mae arweinwyr yn trefnu'r ystafell yn effeithiol gydag ardaloedd dysgu pwrpasol sy'n hybu datblygiad y plant ac yn cynnig profiadau chwarae cyfoethog, fel amrywiaeth o gynwysyddion yn y twb dŵr a gwrthrychau go iawn yn yr ardal chwarae rôl.

Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol a rhai wedi'u hailgylchu ar gael sy'n hybu dealltwriaeth y plant o fywyd go iawn. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i'r plant ddefnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored i fwynhau chwarae gyda dŵr, y gegin fwd, cydbwyso ar y trawstiau ac ymlacio yn y caban pren gyda llyfr. Mae'r amgylchedd yn caniatáu cyfleoedd addas i blant fynd i'r toiledau a golchi'u dwylo'n annibynnol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i wneud dewisiadau yn annibynnol. Er enghraifft, mae'r offer yn yr ardal adeiladu a'r ardaloedd chwarae rôl yn hygyrch i'r plant wrth iddynt chwarae. Mae'r adnoddau yn amrywiol ac yn ysgogi diddordebau a dychymyg y plant. Mae dewis effeithiol o adnoddau ar gael er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys llyfrau, doliau, ac offerynnau amrywiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar gyflwyno profiadau eang a niferus i'r plant a hynny mewn amgylchedd cynnes, gofalgar a diddorol. Mae hapusrwydd a diogelwch bob plentyn yn ganolog i waith y cylch. Maent yn cynnig gofal o ansawdd mewn awyrgylch hapus a chartrefol gan roi cyfle i bob plentyn ddysgu a datblygu i'w lawn botensial.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol fel tîm sy’n hyrwyddo awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer y plant. Mae arweinwyr yn parchu a gwerthfawrogi gwaith yr holl ymarferwyr. Maent yn derbyn goruchwyliaeth rheolaidd ac yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu’n broffesiynol er mwyn gwella’u gwybodaeth o’r cwricwlwm a’u harferion gofal. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn awyddus i lwyddo. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar gyfathrebu dieiriau wedi galluogi ymarferwyr i ddatblygu medrau’r plant yn briodol.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys gwybodaeth fanwl ac yn cynnig disgrifiad cywir o’r gwasanaeth a gynigir. Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae gan bob ymarferydd swydd ddisgrifiad pwrpasol. Mae arweinwyr yn diffinio rolau a chyfrifoldebau’r ymarferwyr yn glir gan sicrhau eu bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol. Mae’r polisïau yn gynhwysfawr, yn rhoi amlinelliad clir o’r gweithdrefnau i’w dilyn a chânt eu hadolygu’n flynyddol. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae arweinwyr yn hunanwerthuso’r ddarpariaeth yn addas ac yn adnabod meysydd i’w gwella yn gywir. Er enghraifft, maent yn adnabod yr angen i ddatblygu medrau Cymraeg plant. Mae arweinwyr yn mynd i’r afael â rhai meysydd i’w gwella yn effeithiol gan ddefnyddio arian grantiau i gyflawni’r amcanion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw’r arferion monitro ar gyfer gwerthuso’r ddarpariaeth yn digwydd yn ddigon rheolaidd, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn rhy araf i weithredu ar agweddau sydd angen sylw.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol gyda'r holl randdeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant ac yn gweithredu ar awgrymiadau swyddogion asiantaethau cefnogi yn rheolaidd. Mewn ymateb i holiadur i rieni, mae nosweithiau rhieni wedi eu sefydlu er mwyn adrodd ar ofal, datblygiad a chynnydd y plant yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr berthynas dda â’r ysgol. Mae hyn yn paratoi’r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus ac maent yn rhannu’r safle yn synhwyrol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin yn dda, ac maent yn defnyddio’r ardal gyfagos yn bwrpasol. Maent yn ymweld â’r llyfrgell, y bad achub ac yn mynd ar deithiau lleol yn gyson.

Mae gan y lleoliad berthynas gadarn â rhieni a gofalwyr. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cyfathrebu’n gyson â nhw er mwyn gwella lles a dysgu’r plant o ddydd i ddydd. Mae’r lleoliad yn defnyddio ‘ap’ digidol a chyfryngau cymdeithasol diogel i adrodd ar ddatblygiad y plant drwy luniau ac i hysbysu rhieni o negeseuon pwysig yn rheolaidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2025